Estyn

*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Baladeulyn
# Nantlle
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL54 6BT

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2012**

**gan**

**Mr Mervyn Lloyd Jones**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 19/07/12**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Baladeulyn ym mhentref Nantlle wrth droed Yr Wyddfa, oddeutu tair milltir o Ben-y-groes, ardal wledig gymharol ddifreintiedig sydd â chanrannau prydau ysgol di dal o 16%-24%. Fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Sir Gwynedd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos. Bu niferoedd y disgyblion yn weddol gyson dros y tair blynedd diwethaf.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed ac ar hyn o bryd mae 25 ar y gofrestr, gan gynnwys pedwar plentyn meithrin rhan amser. Derbynnir plant i ddosbarth meithrin yr ysgol yn rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen blwydd yn dair oed ac yn amser llawn i'r dosbarth derbyn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair. Mae'r disgyblion yn cynrychioli'r ystod lawn o allu.

Fe'u haddysgir gan ddau athro amser llawn ac un rhan amser. Addysgir yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae tua 70% yn siarad Cymraeg gartref. Mae dau blentyn yn dod o dras ethnig.

Mae pump o ddisgyblion (19%) wedi eu cofnodi gan yr ysgol fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r pennaeth presennol yn ei swydd ers Ionawr 2000. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2006.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Baladeulyn yn 2011-12 yn £6010. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £7732 a'r lleiafswm yw £2745. Mae ysgol Gynradd Baladeulyn yn safle 10 o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae disgyblion yn cyflawni safonau da;
- darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles disgyblion a'u datblygiad fel unigolion hapus a diogel;
- mae'r addysgu o ansawdd da ac mae'r disgyblion yn cael budd o gwricwlwm diddorol ac amrywiol; ac
- mae arweiniad effeithiol ac ethos cynhwysol yr ysgol yn creu'r amodau gorau posibl i bob unigolyn ddatblygu a ffynnu.

## Rhagolygon gwella

Mae gan yr ysgol ragolygon gwella da oherwydd:

- ymrwymiad y pennaeth, staff a llywodraethwyr i welliant parhaus;
- bod yr ysgol yn adnabod ei pherfformiad ei hun yn dda;
- cydrennir disgwyliadau uchel a gwerthoedd cyffredin ynghylch dysgu, ymddygiad a chyd berthnasedd; ac
- ymroddiad yr ysgol i ymgymryd yn frwdfrydig i ddatblygu arferion cydweithio effeithiol gyda nifer helaeth o bartneriaethau.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 sicrhau fod mwy o ddisgyblion yn cyflawni'r lefelau uwch ar ddiwedd y cyfnodau allweddol ym mathemateg a gwyddoniaeth;

A2 barhau i godi safonau ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg ar draws yr ysgol;

A3 ddatblygu ymhellach strategaethau hunan asesu'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 er mwyn iddynt ddod yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith; a

A4 sicrhau bod cyswllt clir rhwng canfyddiadau'r adroddiad hunan arfarnu, blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol a thargedau unigol i ddisgyblion.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

*Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.*

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn eu gwersi a thros gyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu a'u perfformiad blaenorol. Maent yn dwyn i gof dysgu blaenorol yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi'i ddysgu mewn sawl pwnc. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf wedi datblygu eu medrau meddwl yn dda, yn caffael gwybodaeth yn bwrpasol ac yn cymhwyso'r rhain yn llwyddiannus mewn sawl maes dysgu.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ac yn cyfathrebu'n hyderus ac yn eglur o oedran cynnar. Maent yn mynegi barn yn hyderus mewn gwersi ffurfiol ac wrth drafod teimladau mewn Amser Cylch. Maent yn adfyfyrio ar eu dysgu ac yn trafod eu gwaith yn wybodus. Mae ganddynt afael dda ar eirfa a thermau ac fe wnânt gynnydd cadarn yn eu medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Maent yn defnyddio'r sgiliau yma yn llwyddiannus mewn sawl maes.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ac yn siarad yn glir, gan gyfleu eu syniadau yn synhwyrol ac i bwrpas. Gwnânt hyn yn gynyddol hyderus yn Gymraeg a Saesneg. Maent wedi datblygu medrau darllen da yn Gymraeg a Saesneg, llawer yn darllen gyda rhuglder, cywirdeb a mynegiant da. Mae'r disgyblion mwyaf hyderus yn trafod cynnwys ac arddull awduron yn ddeallus. Mae llawer yn ysgrifennu at bwrpasau ac mewn arddulliau gwahanol gyda medrusrwydd cynyddol. Mae disgyblion uwch eu gallu yn ysgrifennu yn estynedig yn y ddwy iaith i safon dda. Serch hynny, nid yw safonau ysgrifennu cystal â safonau llafar a darllen.

Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu a chyflwyno eu gwaith yn daclus ac yn cymryd gofal da.

Mae y rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da iawn yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Maent yn defnyddio'r iaith yn gynyddol rugl ac effeithiol ar bob math o achlysur ffurfiol ac anffurfiol. Gallant drin a thrafod amrywiol bynciau yn effeithiol iawn gan ddefnyddio geirfa eang.

Yn y Cyfnod Sylfaen, yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2 mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ar gyfer plant saith oed yn gyson ymhlith y 50% isaf o ysgolion tebyg. Serch hynny, roedd canlyniadau Cymraeg a gwyddoniaeth yn 2011 ymhlith y 25% uchaf. Roedd nifer y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel uwch, sef lefel 3 yn y Gymraeg a gwyddoniaeth yn 2011 yn well na chyfartaledd ysgolion y teulu ond ni chyflawnodd yr un disgybl y lefel uwch ym mathemateg.

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar gyfer plant 11 oed yn amrywio. Yn 2008 a 2011 roedd perfformiad yr ysgol yn y pedwar pwnc craidd yn y 25% uchaf o

ysgolion tebyg. Amrywiol oedd y canlyniadau yn 2010 gyda Saesneg yn y 50% uchaf a Chymraeg, gwyddoniaeth a mathemateg yn y 50% isaf.

Yn 2011 mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch, sef lefel 5 ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn well na'r teulu a chyfartaleddau Cymru yn y Gymraeg a Saesneg. Nid oedd yr un disgybl wedi cyflawni'r lefel uwch ym mathemateg na gwyddoniaeth. Yn gyffredinol bu'r ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch yn amrywio tipyn dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae'r disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim ac sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd disgwyliedig yn unol â'u hoed a gallu. Nid oes patrwm arwyddocaol o ran gwahaniaethau rhwng cyflawniad merched a bechgyn.

**Lles: Da**

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r angen i fwyta bwyd iach ac i gadw'n heini. Deallant fod hyn yn cyfrannu at gorff a meddwl iach. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r hyn sy'n ddrwg iddynt megis smocio a chyffuriau.

Mae ymddygiad bron bob un o'r disgyblion yn dda iawn mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Dangosant barch a gofal am ei gilydd, ac maent yn gwrtais a phawb. Maent yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac mae pawb yn teimlo'n ddiogel yno.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn gweithio'n galed ac yn cyfrannu'n dda mewn gwersi. Dangosant ddiddordeb amlwg yn eu gwaith ac mae eu gallu i ganolbwyntio'n dda. Cydweithiant yn effeithiol.

Mae cyfraddau presenoldeb o 95% yn dda ac yn uwch nag ysgolion tebyg a chyfartaleddau cenedlaethol.

Ysgwydda llawer o ddisgyblion gyfrifoldebau o fewn cymuned yr ysgol, ac maent yn elwa'n uniongyrchol o gysylltiadau cadarn yr ysgol gyda'r gymuned leol. Mae'r cyngor yn rhan weithredol o wneud penderfyniadau, a chaiff safbwyntiau disgyblion eu hystyried yn ofalus. Maent wedi cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol drwy arwain ar faterion megis iechyd, adnoddau dysgu a chodi arian at elusennau adnabyddus.

Mae medrau personol, cymdeithasol a medrau bywyd y disgyblion yn datblygu'n dda ac maen nhw wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau mwyafrif y disgyblion o lunio meini prawf llwyddiant a chynllunio unedau o waith ar gyfer eu gweithgareddau yn datblygu'n dda. Serch hynny, lleiafrif o'r disgyblion sydd ar hyn o bryd a'r hyder a'r gallu i werthuso gwaith eu hunain a'u cyfoedion. Nid ydynt bob amser yn glir ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r cynlluniau gwaith yn gynhwysfawr ac yn ymateb yn dda i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol. Mae'r cwricwlwm yn diwallu anghenion neilltuol grwpiau ac unigolion penodol ac yn cynnig rhaglenni personol ar gyfer disgyblion ag anghenion penodol.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, cyfathrebu a thechnoleg gwybodaeth yn effeithiol, ac wedi eu hymgorffori yn gyson i brofiadau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da iawn. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddysgu am hanes, daearyddiaeth, a diwylliant Cymru.

Mae'r ysgol hefyd yn cynnig ystod eang o brofiadau diddorol yn y maes cynaliadwyedd. Mae staff yn annog disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol ac i chwarae rhan weithgar yn y gymuned leol ac o fewn y gymuned fyd-eang. Rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion gasglu at elusennau, ailgylchu, defnyddio llai o ynni, a dysgu am nwyddau masnach deg.

**Addysgu: Da**

Mae safon yr addysgu yn dda. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cynllunio ystod o weithgareddau diddorol sy'n ysgogi'r disgyblion. Mae cydweithio effeithiol iawn rhwng yr athrawon a'r staff ategol ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn gwneud defnydd dychmygus o adnoddau, gan gynnwys technoleg i wella'r dysgu. Mae cymorth oedolion wedi ei ffocysu'n dda ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at ansawdd dysgu'r disgyblion.

Mae cyflymdra'r dysgu yn addas, y tasgau'n ddiddorol a'r cwestiynu'n dreiddgar. Yn ddieithriad mae'r berthynas rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn un sy'n annog parch a chwrteisi. Mae disgwyliadau'r athrawon a'r disgyblion yn uchel ac mae'r gwersi yn adeiladu ar brofiadau blaenorol. Mae ethos cefnogol ac awyrgylch weithgar o fewn y dosbarthiadau, lle mae pob unigolyn yn cael ei barchu.

Mae athrawon yn ymateb yn adeiladol i waith disgyblion. Yn yr achosion gorau maent yn eu helpu i ddatblygu eu gwaith ysgrifenedig wrth farcio yn effeithiol. Mae athrawon yn gosod targedau clir ar gyfer gwella ac yn eu cofnodi yn ofalus ond nid yw'r drefn o sicrhau fod y plant yn ymwybodol ohonynt wedi ei wreiddio yn llawn. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n llwyddiannus ar draws yr ysgol.

Mae cyrhaeddiad disgyblion yn cael ei asesu'n rheolaidd ac mae'r canfyddiadau yn cael eu dadansoddi i olrhain cynnydd. Mae'r adroddiadau i rieni yn glir, yn llawn gwybodaeth ac yn amlinellu meysydd i'w gwella.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus sy'n rhoi blaenoriaeth amlwg i les a diogelwch disgyblion. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am bwysigrwydd bwyta yn iach, cadw'n heini ac am ddiogelwch personol. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer helpu disgyblion i reoli eu teimladau a datblygu hunan ymwybyddiaeth a hunan-barch. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion yn dda.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cynhwysfawr a chysylltiadau agos ac effeithiol ag asiantaethau arbennig fel y gwasanaethau iechyd a lles, yr heddlu, nyrs yr ysgol, a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r ysgol yn annog y disgyblion i fynegi barn ac i roi syniadau ar sut i wella'r ysgol yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae polisïau effeithiol yn eu lle ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chânt eu gweithredu'n llawn. Mae trefniadau llwyddiannus yn bodoli i gefnogi'r holl ddisgyblion sydd wedi cael eu hadnabod ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion pob plentyn yn dda iawn ac yn darparu'n effeithiol ar eu cyfer.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae ethos cartrefol iawn o fewn yr ysgol sy'n hyrwyddo'r ymdeimlad o berthyn, parch at ei gilydd a chydraddoldeb. Mae pob disgybl yn cael ei annog i ymgymryd yn llawn â phob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi hyn. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau sy'n meithrin dealltwriaeth y disgyblion o'r byd ehangach. Mae'r ysgol yn delio yn sensitif ac effeithiol ag achosion o ymddygiad heriol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion. Mae'r adeilad yn diwallu anghenion disgyblion yn dda ac mae safon uchel yr arddangosfeydd dosbarth yn helpu i greu amgylchedd dysgu symbylus a chyfoethog. Mae'r adeiladau o ansawdd da ac yn cael eu cynnal yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

## Arweinyddiaeth: Da

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol. Mae yn sicrhau fod pob agwedd o fywyd yr ysgol yn cael dylanwad amlwg a phositif ar safonau a lles y disgyblion. Fe hyrwyddir ymddygiad a gwerthoedd sydd yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at greu ethos cynhaliol ble caiff pawb eu gwerthfawrogi. Mae'n adnabod yr ysgol yn dda ac yn cynnig cyfeiriad strategol clir.

Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm. Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd sydd yn cynnwys pawb mewn trafodaethau, caiff y rhain effaith gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn darparu cefnogaeth effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r modd y mae'r ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Maent yn ymwybodol o'r materion sy'n codi o ddadansoddi data ac o adroddiad hunan arfarnu'r ysgol. Maent yn hyderus wrth drafod adroddiadau a materion cyllidol, yn ymweld â'r ysgol yn gyson ac yn trafod targedau. Mae hyn oll yn codi eu hymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'u rôl yn dda. Defnyddiant y wybodaeth yn ddeallus i herio'r ysgol mewn meysydd y mae angen eu gwella ymhellach.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol cyfredol. Gwelir hyn yn arbennig ym meysydd lles, codi safonau llythrennedd a rhifedd a chydweithio gydag ysgolion eraill fel cymunedau dysgu proffesiynol. Rhoddir sylw da i lais y plentyn ymhob elfen o fywyd yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r trefniadau hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn dda ac yn rhan reolaidd o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r drefn yn gynhwysfawr a thrylwyr ac mae aelodau'r staff a'r llywodraethwyr yn weithredol yn y broses. Mae canfod barn eraill hefyd wedi'i sefydlu'n dda. Mae'r ysgol yn gofyn barn disgyblion, rhieni a'r gymuned ehangach yn rheolaidd ac fe ystyrir eu sylwadau o ddifrif.

Defnyddir nifer o ddulliau o fewn y drefn gan gynnwys edrych ar enghreifftiau o waith disgyblion, arsylwi addysgu a dadansoddi'n ofalus ganlyniadau asesiadau ffurfiol.

Mae'r blaenoriaethau a bennir yn y cynllun datblygu ysgol yn addas ar gyfer datblygiad yr ysgol ac yn canolbwyntio'n amlwg ar godi safonau. Mae'n arf effeithiol i sicrhau fod yr ysgol yn gosod targedau heriol a phriodol. Serch hynny, nid yw'r cyswllt rhwng canfyddiadau'r adroddiad hunan arfarnu, blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol a thargedau unigol y disgyblion bob amser yn glir.

Mae gan bawb ymwybyddiaeth dda o gynnwys y cynllun datblygu ysgol a'u rôl wrth eu gweithredu. Nodir y dulliau gweithredu o dan y gwahanol flaenoriaethau a'r deilliannau disgwyliedig. Dynodir hefyd gyfrifoldebau gweithredu a chlustnodir adnoddau ar gyfer cefnogi'r datblygiadau.

Mae cymuned dysgu broffesiynol yr ysgol yn galluogi staff i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth yn llwyddiannus. Mae rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol gydag ysgolion a phartneriaid eraill yn cyfrannu'n bwrpasol er budd lles a safonau'r disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r cyd-weithio ar brosiect codi safonau ysgrifennu bechgyn yn y Saesneg.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith fuddiol ar les a chyrhaeddiad disgyblion.

Ceir partneriaeth dda iawn gyda rhieni. Maent yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyfrannu'n frwdfrydig tuag at nifer o weithgareddau, gan gynnwys codi arian i wella'r ddarpariaeth addysgol. Mae cydweithio agos iawn rhwng yr ysgol a chymdeithas

'Cyfeillion yr Ysgol' a rhwng nifer o gysylltiadau yn y gymuned.  Fe rennir profiadau ac arbenigedd yn llwyddiannus i gyfoethogi addysg y plant.

Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r wybodaeth gyson a rennir gyda hwy ynglŷn â chynnydd eu plant.

Mae partneriaeth dda gyda'r awdurdod lleol ac fe wnaethpwyd defnydd gwerthfawr o'r gefnogaeth ddiweddar wrth gefnogi lles y disgyblion.

Mae partneriaeth strategol effeithiol iawn yn bodoli o fewn y clwstwr ysgolion.  Manteisir ar bob cyfle i gydweithio a defnyddio arbenigedd staff o sawl ysgol.

Ceir partneriaeth dda gyda'r ysgol uwchradd leol.  Mae cynllun pontio effeithiol wedi ei sefydlu i sicrhau trosglwyddo esmwyth.  Mae'r trefniadau hyn yn effeithiol, er enghraifft, mae cymedroli asesiadau ar y cyd yn sicrhau cysondeb ar draws y ddwy sector.

Mae cyswllt da gyda busnesau lleol, er enghraifft, gwesty a chwarel leol, lle mae'r disgyblion yn cael ymweliadau buddiol sydd yn dylanwadu'n dda ar eu profiadau ac yn datblygu eu sgiliau mentergarwch.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol.  Mae'r holl staff yn cydweithio yn llwyddiannus ac fe wneir defnydd gwerthfawr o'u harbenigedd.  Cefnogir yr athrawon gan dîm effeithiol o gymorthyddion.  Maent yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi'r disgyblion.

Mae trefniadau priodol yn weithredol ar gyfer rheoli perfformiad yr holl staff, sy'n arwain at gyfleoedd priodol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.  Fe wneir defnydd effeithiol o amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon.

Mae gan yr ysgol ystod helaeth o adnoddau addysgu a dysgu a chânt eu defnyddio'n effeithiol.  Fe wneir defnydd da o'r gofod mewnol ac allanol.

Mae gwariant yn cael ei fonitro'n ofalus, gyda symiau penodol wedi eu clustnodi ar gyfer gweithredu blaenoriaethau'r cynllun datblygu.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd blwyddyn 2, yn y Cyfnod Sylfaen, ac ar ddiwedd blwyddyn 6, yng nghyfnod allweddol 2, gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan iawn o blant mewn blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2 (y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ar gyfer plant saith oed) yn gyson ymhlith y 50% isaf o ysgolion sy'n debyg o ran niferoedd prydau ysgol am ddim. Serch hynny, roedd canlyniadau Cymraeg a gwyddoniaeth yn 2011 ymhlith y 25% uchaf.

Roedd nifer y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel 3 uwch yn y Gymraeg a gwyddoniaeth yn 2011 yn uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu ond ni chyflawnodd yr un disgybl y lefel uwch ym mathemateg. Yn 2009 a 2010 ni chyflawnodd yr un disgybl y lefel uwch yn Gymraeg, mathemateg na gwyddoniaeth. Roedd canlyniadau 2008 yn cymharu'n ffafriol a'r teulu.

Nid oes gwahaniaeth yng nghyflawniad disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion. Nid oes patrwm arwyddocaol yn cyfeirio at unrhyw wahaniaethau rhwng canlyniadau merched a bechgyn ar y lefel disgwyliedig.

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 (y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar gyfer plant 11 oed) yn amrywio. Yn 2008 a 2011, roedd perfformiad yr ysgol yn y pedwar pwnc craidd yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Amrywiol oedd y canlyniadau yn 2010, gyda Saesneg yn y 50% uchaf a Chymraeg, gwyddoniaeth a mathemateg yn y 50% isaf. Nid oedd yr un disgybl ym mlwyddyn chwech yn 2009.

Yn 2011, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r lefelau disgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 (lefel 5 neu'n uwch) yn well na'r teulu a chyfartaleddau Cymru yn y Gymraeg a Saesneg, nid oedd yr un disgybl wedi cyflawni'r lefel uwch ym mathemateg a gwyddoniaeth.

Yn gyffredinol bu'r ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch yn amrywio tipyn dros y pedair blynedd ddiwethaf. Yn Gymraeg roedd y canlyniadau'n gyson well na'r teulu a chyfartaleddau Cymru. Yn Saesneg yn 2008 a 2011, roedd perfformiad y disgyblion yn well nag ysgolion tebyg a chyfartaleddau Cymru, ond ar wahân i fathemateg yn 2010, ni chyflawnodd yr un disgybl y lefelau uwch ym mathemateg a gwyddoniaeth.

Nid oes gwahaniaeth yng nghyflawniad disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion na rhwng bechgyn a merched.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni/gofalwyr** **Nifer o ymatebion: 13**

***Mae pob un yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod yr ysgol yn:***

- cael ei rhedeg yn dda;
- darparu amrywiaeth dda o weithgareddau;
- helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb; a
- rhoi cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.

***Mae pob un yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod eu plant yn:***

- hoffi'r ysgol;
- cael cymorth i ymgartrefu'n dda wrth ddechrau yn yr ysgol;
- gwneud cynnydd da;
- cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corf yn rheolaidd;
- ddiogel yn yr ysgol; a
- cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

***Mae pob un yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod:***

- yr addysgu'n dda;
- y disgyblion yn ymddwyn yn dda;
- staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau;
- gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol; a
- staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch,

***Mae pob un yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn:***

- cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn;
- teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem; a
- deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr      Nifer o ymatebion: 13**

Cwblhawyd yr holiaduron dysgwyr gan bawb ond un disgybl yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r ymatebion yn gadarnhaol iawn, ac yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd. Mae'r holl ddisgyblion yn cytuno gyda'r datganiadau i gyd yn yr holiadur.

***Mae pob un disgybl yn cytuno fod yr ysgol yn:***

- delio'n dda ag unrhyw fwlio; a
- rhoi llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd.

***Mae pob un disgybl yn cytuno fod:***

- athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith;
- ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith;
- plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith; a
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

***Mae pob un disgybl yn cytuno eu bod yn:***

- gwneud yn dda yn yr ysgol;
- gwybod pwy i siarad ag ef/hi os yw'n poeni neu ofidio, neu os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd;
- dysgu sut i aros yn iach; a
- theimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mervyn Lloyd Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Tristan Roberts | Arolygydd Cymheiriaid |
| Esme Spencer | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.